



Mae Grŵp Llandrillo Menai yn chwilio am unigolion ysbrydoledig sy'n annog dysgu ac sy'n angerddol am wneud gwahaniaeth i fywydau pobl ifanc.

Mae'n rhaid i chi allu cynorthwyo gyda gofal personol, gallai hyn gynnwys cynorthwyo i fynd i'r toiled a helpu gyda bwyta. Byddai profiad o symud/trin dysgwyr, yn ogystal â chynorthwyo yn eu gofal personol, hefyd yn fanteisiol ond nid yn hanfodol, gan y bydd hyfforddiant llawn yn cael ei ddarparu, lle bo angen.

### **Beth yw cynorthwyd cefnogi dysgu?**

Mae Cynorthwywyr Cefnogi Dysgu yn gweithio ochr yn ochr â thiwtoriaid coleg i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol i gyflawni eu hamcanion academaidd.

Nid oes y fath beth â diwrnod arferol i gynorthwyd cefnogi dysgu. Fe'i pennir gan nifer o ffactorau, a'r pwysicaf ohonynt yw anghenion unigol unigryw pob dysgwr. Mae hon yn rôl amrywiol iawn.

Mewn un frawddeg, fe allech ddweud mai swydd Cynorthwywyr Cefnogi Dysgu yw cefnogi dysgwyr i lywio trwy elfennau academaidd, emosiynol, cymdeithasol a phersonol bywyd coleg.

---

Grŵp Llandrillo Menai are looking for inspiring individuals who encourage learning and are passionate about making a difference in young people's lives.

You must be able to assist with personal care, this could be assisting to the toilet and helping with eating. Experience in moving / handling learners, as well as assisting in their personal care, would also be advantageous but not essential, as full training will be provided, where necessary.

### **What is a learning support assistant?**

Learning Support Assistants work alongside college tutors to support learners with additional learning needs in achieving their academic objectives.

There is no such thing as a typical day for a learning support assistant. It is determined by a number of factors, the most important of which is each learner's unique individual needs. This is a very diverse role.

In one sentence, you could say that the job of an LSA is to support learners navigate through the academic, emotional, social, and personal elements of college life.

